Rhif: WG39588

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Llywodraeth Cymru
**Dogfen Ymgynghori**

# Mwy Nag Ailgylchu

## Strategaeth i greu economi gylchol yng Nghymru



Dyddiad cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 24 Ebrill 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Nid ymgynghoriad ar ein dull gweithredu ar gyfer gwastraff yn unig yw hwn, neu'n hymdrechion o ran ailgylchu. Mae'n ymwneud ag adeiladu ar sail camau gweithredu llwyddiannus a wnaed yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf; gan gymryd y camau nesaf tuag at economi fwy cylchol, dileu gwastraff a mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. Rydym yn dymuno symud oddi wrth wneud a gwaredu pethau i ailddefnyddio ac adfer cynnyrch a deunyddiau lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hyn yn golygu bod angen newid sylfaenol i'r ffordd y mae pawb yn meddwl ac yn gweithredu gyda'r cynnyrch rydym yn ei wneud a'i ddefnyddio. Rydym am glywed eich barn chi ynghylch y ffordd y gallwn wneud y newid hwn a chefnogi'r economi gylchol yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru ar gyfer dinasyddion, rhanddeiliaid a chymunedau gwahanol a byddwn yn hyrwyddo'r rhain yn eang. Bydd cyfleoedd i gymryd rhan ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.<br><br>Mae nifer o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori hon. Gallwch gyflwyno ymatebion i'r rhain ac ychwanegu eich sylwadau eich hunan drwy'r post neu drwy anfon e-bost at ein blwch negeseuon e-bost ymgynghoriad penodedig – neu gallwch ymateb drwy ein holiadur ar-lein. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.<br><br>https://llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol |
| **Manylion Cyswllt** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>EffeithlonrwyddAdnoddauAcEconomiGylchol@llyw.cymru<br><br>Yr Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost:<br><br>BeyondRecycling@gov.wales / MwyNagAilgylchu@llyw.cymru<br><br>Rhif Ffôn: 03000 060 4400 |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon, yn unol â'u pwerau statudol, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Y Strategaeth ar un Dudalen

# Mwy nag Ailgylchu

## Creu economi gylchol yng Nghymru


### Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

**Symud tuag at economi gylchol er mwyn:**


- **Bod yn ddiwastraff erbyn 2050**
- **Lleihau allyriadau**
- **Gwireddu ein potensial economaidd**
- **Sicrhau bod defnyddio adnoddau'n effeithlon yn rhan o ddiwylliant Cymru**

**Yr Economi Gylchol: Ein nod yw parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo'n bosibl ac osgoi gwastraff.**

### Cyflawniadau




### Sut rydym am wneud hyn




### Ein hagenda gydgysylltiedig

- Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol i Gymru
- Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi
- Cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Polisi Adnoddau Naturiol
- Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel

**Allwedd**

- Defnyddio adnoddau'n effeithlon
- Cyfleoedd economaidd
- Lleihau allyriadau carbon

## Y Prif Gamau Gweithredu

Rydym yn cynnig wyth prif gam gweithredu uchelgeisiol er mwyn cyflymu ein taith tuag at economi gylchol:

1. **Arwain y byd o ran ailgylchu:** Byddwn yn gweithio i sicrhau'r cyfraddau uchaf yn y byd o ran ailgylchu gwastraff cartrefi, gan weithio gyda llywodraeth leol a thrawsnewid sut y caiff gwastraff masnachol, a gwastraff o’r byd diwydiannol a'r byd adeiladu eu hailgylchu.

2. **Cael gwared ar blastig untro yn raddol:** Byddwn yn gwneud Cymru'r wlad gyntaf i beidio ag anfon plastig i safleoedd tirlenwi. Byddwn yn bwrw ati gyda diwygiadau pellgyrhaeddol gan gynnwys cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, a gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau i gael gwared yn raddol ar y defnydd o blastig untro diangen sy'n aml yn cael ei daflu'n sbwriel.

3. **Buddsoddi mewn technoleg lân er mwyn casglu deunyddiau:** Byddwn yn moderneiddio'r ffordd rydym yn casglu'r deunydd o'n cartrefi a'n busnesau i leihau allyriadau carbon deuocsid o drafnidiaeth a gwella ansawdd aer, drwy gyflwyno cerbydau heb allyriadau a buddsoddi mewn seilwaith i’w gwefru a rhoi pŵer iddynt mewn ffordd gynaliadwy.

4. **Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd:** Byddwn ar flaen y gad o ran gwaredu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi drwy edrych ar y gadwyn gyflenwi gyfan a gweithio gyda busnesau o'r fferm i'r fforc i leihau gwastraff a sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl.

5. **Blaenoriaethu prynu pren, a chynnyrch sydd wedi’i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu:** Byddwn yn blaenoriaethu defnyddio pren a chynnwys sydd wedi’i ailgylchu yn ogystal â blaenoriaethu cynnwys a ailddefnyddiwyd ac a ailweithgynhyrchwyd ymhlith y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu caffael.

6. **Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd:** Byddwn yn cefnogi dinasyddion a chymunedau i wneud y pethau bychain sydd at ei gilydd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Byddwn yn ennyn diddordeb pobl ifanc fel y gallant fynd ati i ddysgu a bod yn rhan o gamau gweithredu er mwyn defnyddio adnoddau’n effeithlon drwy'r sector addysg a thu hwnt.

7. **Creu'r amodau i fusnesau achub ar gyfleoedd:** Byddwn yn cefnogi pob busnes yng Nghymru i leihau ei ôl troed carbon a defnyddio adnoddau’n fwy effeithlon. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i'n busnesau arbed a gwneud arian, yn ogystal â bod yn fwy cydnerth a medru cystadlu mewn marchnadoedd newydd a datblygol gan sicrhau canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol hefyd.

8. **Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff:** Byddwn yn ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff yng Nghymru, gan sicrhau nad ydym yn allforio gwastraff i fod yn broblem yn rhywle arall. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhannau eraill o'r byd i'w helpu i fynd i'r afael â'u problemau gwastraff.

CYNNWYS

| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair gan y Gweinidogion | 7 |
| Yr hyn yr ydym am ei gyflawni | 9 |
| Sut rydym am wneud hyn | 11 |
| Adeiladu ar ein cofnod ailgylchu | 12 |
| Cefnogi atal ac ailddefnyddio | 14 |
| Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau | 16 |
| Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth | 18 |
| Galluogi cymunedau a busnesau | 20 |
| Buddsoddi mewn seilwaith | 22 |
| Dull gweithredu’r ymgynghoriad a sut i ymateb | 24 |

Ers datganoli, mae Cymru wedi arwain y byd o ran ailgylchu. Mae pob cartref wedi chwarae ei ran, gan ddangos sut y gall camau bach arwain at newid sylfaenol. Bellach, mae'n rhan o bwy yr ydym, ac mae wedi'i sefydlu yn niwylliant Cymru'r 21ain ganrif. Ailgylchu yw'r hyn rydym yn ei wneud.

Mae'r gamp hon wedi deillio o weledigaeth hirdymor glir, cydweithio cryf mewn partneriaeth, buddsoddiad sylweddol a cherrig milltir clir ar hyd y daith. Er bod y strategaeth ddiwethaf a wnaeth roi'r rhain ar waith wedi dyddio'n dda, ers hynny mae gymaint wedi newid yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf.

Mae sut rydym yn rheoli ein gwastraff a'r adnoddau rydym yn eu defnyddio wedi dod hyd yn oed yn fwy hanfodol. Mae'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd wedi datblygu'n her fwyaf ein hoes. Mae ymwybyddiaeth o effaith yr hyn rydym yn ei brynu a'r gwastraff rydym yn ei greu yn tyfu; ac mae cyfleoedd economaidd ar gyfer datrysiadau sy'n eco-gyfeillgar yn tyfu'n gyflym.


Rydym fel Llywodraeth yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n wlad fwy gwyrdd, yn fwy cyfartal ac yn fwy ffyniannus. O fewn y strategaeth hon, gallwch weld sut y mae amcanion diwastraff, digarbon net a byw o fewn adnoddau'r blaned yn dod at ei gilydd. Fel cenedl rydym yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd ac rydym yn ystyried ein heffaith ar y byd ehangach. Mae'n bwysig i ni.

Rydym hefyd yn canolbwyntio ar wireddu'r potensial economaidd y mae adeiladu ar ein cynnydd o ran ailgylchu yn gallu ei gyflawni. Mae'r gwaith arloesol ledled Cymru eisoes yn golygu bod cwmnïau yn defnyddio mwy o ddeunydd wedi'i ailgylchu, yn gweithredu'n fwy effeithlon, yn lleihau cadwyni cyflenwi ac yn gweithredu mewn marchnadoedd newydd. Mae symud tuag at economi fwy cylchol – un sy'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio cyhyd ag y bo'n bosibl ac yn osgoi gwastraff – yn rhyddhau'r potensial i gystadlu mewn marchnadoedd newydd a denu mwy o fanteision economaidd. Mae'r aflonyddwch a achoswyd gan Brexit hefyd wedi tanlinellu'r angen am fwy o gydnerthedd yn ein heconomi ac mae'n ffordd allweddol y gallwn ni ei ddarparu.

Drwy ddatgan argyfwng hinsawdd, fel Llywodraeth rydym yn ymrwymedig i wneud economi gylchol yn realiti. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithio ar draws ein meysydd cyfrifoldeb ac yn eu cysoni, ac yn dylanwadu ar eraill i sicrhau newid. Mae'r strategaeth hon yn fwy na chyflawni ein hymrwymiad o ran ein Rhaglen Lywodraethu, mae hefyd yn ymwneud â gweithredu ein Cynllun Gweithredu Carbon Isel a'n Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Merthyr Tudful oedd man geni'r Chwyldro Diwydiannol ac yn gynharach eleni cafodd ei enwi'n rhif un yn y DU am sicrhau'r gostyngiad mwyaf yn ei ôl troed carbon drwy ailgylchu. Mae Cymru wedi ysbrydoli newid economaidd byd-eang unwaith o'r blaen.

Fel cenedl dros yr 20 mlynedd diwethaf rydym wedi dod ynghyd i wneud ailgylchu'n rhywbeth arferol. Dros y degawd nesaf mae angen i ni wneud mwy nag ailgylchu i wneud economi gylchol yn realiti.



**Mark Drakeford AC**
**Prif Weinidog Cymru**

Yn 2018, gwnaeth Sian Sykes hwylio o amgylch Cymru ar badlfwrdd, gan gasglu plastig a gafodd ei daflu bob dydd yn ystod ei thaith ddeufis o hyd. Gwnaeth yr hyn y cyflawnodd anfon neges glir: drwy wneud yr hyn a allwn i weithredu a gwneud newidiadau bach, gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth mawr.

Mae dinasyddion, ysgolion, grwpiau cymunedol, busnesau a mentrau ar draws y wlad, fel Sian, yn ysbrydoli gweithredu. Dylai'r camau y mae pobl yn eu cymryd ar hyd a lled Cymru er mwyn cynnal ein planed, fod yn ffynhonnell cryn falchder cenedlaethol a bu'n fraint cael y cyfle i gyfarfod â llawer o'r unigolion a'r sefydliadau ysbrydoledig hyn.

Ein cymunedau sy'n creu Cymru ac maen nhw ar flaen y gad o ran effeithio ar y newid sydd ei angen i ddod yn lleoedd cynaliadwy. O ysgolion yn gweithredu i leihau eu gwastraff, i gaffis adfer cynnyrch sy'n rhannu'r sgiliau i sicrhau bod eitemau'n dal i gael eu defnyddio, mae gweithredu lleol yn galluogi ac yn grymuso pobl i feddwl am yr adnoddau rydym yn eu defnyddio a chymryd camau i sicrhau newid.

Mae'r arloesedd a welir mewn cwmnïau a mentrau lleol yn dangos sut mae newidiadau – megis bod yn fwy effeithlon o ran y deunyddiau rydym yn eu defnyddio ac ailweithgynhyrchu cynnyrch a fyddai fel arall yn wastraff - yn gallu cynnig manteision economaidd a chymdeithasol allweddol drwy arbed arian a chefnogi pobl i ddychwelyd i fyd gwaith.

Fel cenedl, mae ein hymdrechion o ran ailgylchu wedi dod yn enwog ledled y byd, a gartref maent wedi dod yn rhan o'n diwylliant. Mae'r llwyddiant hwn yn deillio o weithio mewn partneriaeth. Fel Llywodraeth rydym wedi gosod fframwaith clir, ond ein hawdurdodau lleol sydd wedi sicrhau'r gwelliant mewn gwasanaethau ledled y wlad, ac mae pob cartref ymhob cymuned yng Nghymru sydd wedi ailgylchu deunyddiau bob dydd wedi golygu ein bod yn arwain y byd.

Drwy ddatblygu'r strategaeth hon, o'r cychwyn felly rwy'n dymuno sicrhau ei bod yn cael ei seilio ar yr un dull gweithredu mewn partneriaeth. Felly mae'r ymgynghoriad hwn yn cefnogi trafodaeth sy'n llawn bwrlwm yng Nghymru ynghylch sut y byddwn yn cymryd y camau nesaf yn ein taith tuag at economi fwy cylchol. Dyma'ch cyfle i roi eich safbwyntiau inni ynghylch y camau y mae angen i ni eu cymryd a sut y gallwn gydweithio yn y ffordd orau i'w cyflawni.

Er mwyn ysgogi trafodaeth, rydym yn amlinellu chwe thema allweddol y credwn fel Llywodraeth y dylem ganolbwyntio arnynt. Rydym hefyd wedi cynnig sawl prif gam gweithredu y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw, gan gydnabod yr angen am gamau gweithredu wedi'u cyflymu, yn enwedig yn sgil yr argyfwng hinsawdd.

Hoffem glywed eich safbwyntiau nid dim ond ar y cynigion, ond hefyd ar unrhyw syniadau neu agweddau newydd rydych chi'n teimlo sydd ar goll. Hefyd o gychwyn yr ymgynghoriad hwn rydym yn dymuno cydweithio gyda chi i gyflawni – mae angen inni gyd chwarae ein rhan wrth lunio dyfodol Cymru a gweithio i wella ein cymunedau yn y tymor byr gan hefyd wella'r gwaddol rydym yn ei gadael i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.


Drwy wneud newidiadau bach, gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth mawr.



**Hannah Blythyn AC**
**Rhagair y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**

# Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

Mae'r hyn yr ydym am ei gyflawni yn uchelgeisiol, ond rydym yn adeiladu ar sylfeini cadarn. Yn ystod yr ugain mlynedd ers datganoli, mae Cymru wedi trawsnewid o fod yn genedl a oedd yn ailgylchu llai na 5% o'i gwastraff trefol, i fod yn arweinydd rhyngwladol sy'n ailgylchu 63%[1]. Yn syml, dyma'r hyn a wnawn.




Yn gynharach eleni gwnaethom ddatgan Argyfwng Hinsawdd. Mae'r alwad hon i'r gad ar gyfer camau gweithredu wedi'u cyflymu yn golygu bod angen strategaeth newydd arnom i helpu i oresgyn yr her hon sy'n diffinio cenhedlaeth. Nid yw peidio â gweithredu yn opsiwn. Rhwng 2001 a 2017, gwelwyd gostyngiad o 60%[2] yn allyriadau nwyon tŷ gwydr sector gwastraff Cymru ond wrth symud ymlaen mae'n glir bod angen inni wneud mwy.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar daith Cymru i fod yn economi fwy cylchol. Ein nod yw datblygu'n wlad lle rydym yn osgoi gwastraff, yn cadw adnoddau i'w defnyddio cyhyd ag y bo modd ac yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear.


Rydym yn dymuno parhau â'r llwyddiant hwn drwy gymryd y camau nesaf tuag at economi fwy cylchol, gyda dull gweithredu sy'n fwy nag ailgylchu. Mae hynny'n golygu sicrhau nad oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi, bod y deunyddiau rydym yn eu defnyddio yn cael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu'n barhaus – naill ai drwy eu hailddefnyddio'n uniongyrchol neu gael eu hailgylchu a'u defnyddio fel deunydd ar gyfer cynnyrch newydd – a lleihau maint y gwastraff sy'n codi yn y lle cyntaf.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2019) Adroddiad rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol: Ebrill i Mehefin 2019, https://llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-i-mehefin-2019

[2] Llywodraeth Cymru (2019) Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel; https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

Blwch 1. Beth yw Economi Fwy Cylchol?




Mae'r ffordd rydym yn defnyddio deunyddiau ar hyn o bryd yn anghynaladwy. Pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un maint â'r dinesydd Cymreig cyfartalog, byddai angen 2.5 planed i gynhyrchu adnoddau byd-eang. Bydd symud tuag at economi fwy cylchol yn annog atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu ac mae angen lleihau faint o ddeunyddiau crai rydym yn eu defnyddio fel bod twf economaidd yn cael ei 'ddadfateroli'. Bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at sicrhau bod Cymru'n defnyddio ein 'cyfran deg' o adnoddau byd-eang yn unig.

Mae'r strategaeth hon yn ymwneud nid yn unig â goresgyn yr heriau rydym yn eu hwynebu; rydym yn dymuno achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o ddull gweithredu newydd wrth ddefnyddio adnoddau. Mae cyfleoedd economaidd eisoes yn cael eu creu drwy ailfeddwl am y deunyddiau rydym yn eu defnyddio a pharhau i ddefnyddio cynnyrch cyhyd ag y bo modd. Mae tystiolaeth wedi dangos bod y symud hwn hefyd â'r potensial i wneud arbedion o hyd at £2 biliwn ar gyfer economi Cymru[3], creu swyddi 'gwyrdd', cynyddu cydnerthedd Cymru yn erbyn costau cynyddol a gwella diogelwch o ran cyflenwi adnoddau deunyddiau byd-eang.

Wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd, bydd agenda ein Llywodraeth ar gyfer gwlad sy'n decach, yn wyrddach ac yn fwy ffyniannus yn greiddiol i'r strategaeth hon. O ran yr hyn sy'n decach, mae hyn yn cynnwys nid yn unig cyfran deg o adnoddau a sicrhau bod gwasanaethau rheoli gwastraff yn cael eu darparu'n gyfartal ledled Cymru. O ran yr hyn sy'n wyrddach, mae hyn yn cynnwys cymryd camau hanfodol i leihau allyriadau a lleihau effeithiau amgylcheddol eraill. O ran bod yn fwy ffyniannus, mae hyn yn cynnwys cymryd camau gweithredu i achub ar y cyfleoedd economaidd a ddaw o symud tuag at economi gylchol erbyn 2050, megis lleihau cadwyni cyflenwi er mwyn gwella cydnerthedd a chefnogi busnesau Cymru i gystadlu yn y marchnadoedd a diwydiannau datblygol yn y dyfodol agos.

[3] Ellen MacArthur Foundation a Wrap (2013) Wales and the Circular Economy – Favourable system conditions and economic opportunities http://www.wrap.org.uk/node/17570

## Sut rydym am wneud hyn

Strategaeth yw hon ynghylch y camau nesaf ar ein llwybr tuag at economi gylchol.  Ein nod yw bod yn genedl ddiwastraff, gydag allyriadau sero net sy'n defnyddio cyfran deg o adnoddau'r ddaear gan wireddu'r potensial economaidd a ddaw gyda'r trawsnewidiad hwn.

Rydym wedi llunio'r strategaeth o amgylch y themâu a'r camau gweithredu craidd i'n harwain ar lwybr tuag at economi fwy cylchol a hoffem gael eich adborth ynghylch sut y gallwn wneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae cwestiynau ar ddiwedd pob thema graidd, ond peidiwch â theimlo eich bod yn cael eich cyfyngu gan y rhain. Byddem yn eich annog i awgrymu camau gweithredu eraill a allai helpu i gyflawni'r nodau a'r hyn y credwch y dylem ei flaenoriaethu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig chwe thema graidd i ganolbwyntio arnynt. Trafodir y rhain yn fanylach yn nes ymlaen yn y ddogfen.  Cawsant eu datblygu o'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu, o ran dysgu o'r strategaeth ddiwethaf a'r dadansoddiad sy'n sail i'n gwaith hyd yn hyn.




Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddatblygu i gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu, yn enwedig ar gyfer *'economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan adeiladu ar ein llwyddiant o ran ailgylchu a lleihau'r effeithiau y mae cynhyrchiant a defnyddio adnoddau yn eu cael ar yr amgylchedd'.* Mae wedi'i integreiddio â'n strategaethau a'n cynlluniau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ar yr Economi gyda'i fodel Contract Economaidd, sy'n cynnwys datgarboneiddio a defnyddio adnoddau'n effeithlon yn elfennau allweddol. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn anelu at sicrhau ei bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cyfeirio at effeithlonrwydd adnoddau. Mae'n cyd-fynd hefyd â meysydd allweddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r blaenoriaethau a nodir yn ein Polisi Adnoddau Naturiol.

Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod sail dystiolaeth yn sylfaen i'r strategaeth derfynol a chamau gweithredu yn y dyfodol.

## Adeiladu ar ein record ailgylchu

Ein nod yw adeiladu ar ein llwyddiant hyd yn hyn drwy lywio'r trawsnewidiad sydd ei angen i wella ailgylchu yn fwy fyth. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn rheoli gwastraff o gartrefi, gwastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel.

### *Y sefyllfa bresennol:*

Mae Cymru wedi cynyddu ei chyfradd ailgylchu gwastraff cartrefi o 5.2% (1998-1999) i 60.7% (2018-19)[4] gan olygu bod gan Gymru'r drydedd gyfradd ailgylchu uchaf yn y byd[5]. Ochr yn ochr â hynny, ar yr un pryd, aeth ein cyfradd ailgylchu gwastraff trefol o 4.8% i 62.8%, sef y bedwaredd gyfradd ailgylchu trefol uchaf yn y byd (ar ôl yr Almaen (y cyntaf), Awstria a De Korea.)

Mae gennym gynlluniau casglu gwastraff ailgylchu cadarn ledled Cymru gydag eitemau cyson yn cael eu casglu o bob cartref. Mae 13 allan o'n 22 awdurdod lleol ar hyn o bryd yn dilyn y model mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio, sef y Glasbrint Casgliadau. Rydym hefyd wedi gweld arloesedd ledled Cymru o ran yr eitemau a gesglir ar gyfer eu hailgylchu gan gynnwys matresi a nwyddau hylendid megis cewynnau. Ond rydym yn gwybod bod hanner y gwastraff gweddilliol sydd dros ben o gartrefi yn gallu cael ei ailgylchu, gyda hanner ohono'n wastraff bwyd[6].

### *Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:*

Rydym yn dymuno cyrraedd ein nod o Gymru'n genedl ddiwastraff erbyn 2050. Mae hyn yn golygu bod unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu taflu'n cael eu hailgylchu a'u hailddosbarthu o fewn economi Cymru, heb golli unrhyw ddeunyddiau o'r system – sef cyfradd ailgylchu o 100% o bob sector i bob pwrpas.

Ein targedau interim ar gyfer ailgylchu gwastraff yw ailgylchu 70% o wastraff cartrefi a busnesau masnachol a diwydiannol erbyn 2025 a 90% o wastraff gweithgareddau adeiladu a dymchwel erbyn 2020.

O ran gwastraff bwyd, rydym yn dymuno defnyddio'r seilwaith sydd gennym ar waith eisoes i sicrhau gostyngiadau pellach. Er mwyn hyrwyddo mwy o ailgylchu o'r sector busnes a chyhoeddus, ein nod yw ei gwneud yn ofynnol i ailgylchu ymhob lleoliad annomestig, gan wahanu gwastraff yn y ffordd y mae cartrefi eisoes yn ei wneud.

### *Beth sydd angen inni ei wneud?*

**Arwain y byd o ran ailgylchu:** Byddwn yn gweithio i sicrhau’r cyfraddau uchaf yn y byd o ran ailgylchu gwastraff cartrefi, gan weithio gyda llywodraeth leol, a thrawsnewid sut y caiff gwastraff masnachol, a gwastraff o’r byd diwydiannol a’r byd adeiladu eu hailgylchu.

- Byddwn yn datblygu seilwaith ychwanegol i drin deunyddiau nad ydynt yn cael eu hailgylchu'n eang ar hyn o bryd a gallai hynny gynnwys cewynnau a matresi.

[4] Llywodraeth Cymru (2019) Adroddiad rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol: Ebrill i Mehefin 2019, https://llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-i-mehefin-2019
[5] Eunomia a'r Biwro Amgylcheddol Ewropeaidd (2017), Recycling – who really leads the world? https://www.eunomia.co.uk/reports-tools/recycling-who-really-leads-the-world-issue-2/
[6] WRAP (2016), National municipal waste compositional analysis in Wales; http://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/Wales%20Municipal%20Waste%20Composition%202015-16%20FINAL.pdf

- Byddwn yn adolygu ein Glasbrint Casgliadau i geisio sicrhau bod set gyson o ddeunyddiau o ansawdd uchel y gellir eu hailgylchu yn cael eu casglu ac annog didoli deunyddiau ar garreg y drws.
- Rydym yn mynd i osod targedau ailgylchu statudol isafswm pellach i awdurdodau lleol y tu hwnt i 2025, i gefnogi'r llwybr i sicrhau'r targed diwastraff erbyn 2050.
- Byddwn yn cydweithio â'r diwydiant gwastraff yng Nghymru i wella cysondeb ymhellach o ran yr amrediad o ddeunyddiau gwastraff sy'n cael eu casglu i'w hailgylchu.
- Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol ac eraill i fynd ati i gefnogi dinasyddion i ailgylchu yn y cartref a thrwy ganolfannau ailgylchu lleol.
- Byddwn yn ymestyn ein ffocws ailgylchu y tu hwnt i ailgylchu gwastraff cartrefi drwy wella'r gwaith o gasglu eitemau eraill megis gwastraff trydanol ac electronig.
- Byddwn yn cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob safle annomestig i wahanu deunyddiau allweddol y gellir eu hailgylchu fel y mae cartrefi'n ei wneud eisoes.
- Byddwn yn cefnogi busnesau i arloesi drwy deilwra ein cymorth a'n cyngor.

**Cwestiwn 1:** Ai'r camau gweithredu a awgrymir yw'r ffordd orau i'n helpu i ailgylchu mwy?

**Cwestiwn 2:** A ddylai trefniadau ailgylchu ledled Cymru fod yn gyson?

**Cwestiwn 3:** Ai'r camau gweithredu a awgrymir yn y thema hon yw'r rhai iawn? Os nad ydynt yn iawn, pam? Pa gamau gweithredu eraill y gallem eu hystyried i gyflawni nodau'r strategaeth?

## Rhoi cymorth i atal gwastraff ac ailddefnyddio

Er mwyn symud tuag at economi fwy cylchol bydd angen inni wella, mewn ffordd radical, y gwaith o leihau faint o wastraff y mae cartrefi, a'r sectorau diwydiannol a masnachol yn ei gynhyrchu, a chyrraedd ein targedau atal gwastraff. Ein nod yw ysgogi newid diwylliannol lle y mae treuliant yn cael ei leihau ac mae gwastraff diangen yn cael ei atal, ac mae unrhyw ddeunyddiau rydym yn eu cynhyrchu sy'n cael eu taflu yn cael eu hystyried yn adnodd yn hytrach nag yn wastraff.

### *Y sefyllfa bresennol:*

Mae Cymru yn wlad lle y mae ailddefnyddio ac atal gwastraff eisoes yn digwydd yn helaeth. Mae'n lle y mae pobl yn defnyddio 'apiau' i gasglu bwyd sydd dros ben rhag mynd yn wastraff ac yn cyfnewid a gwerthu dillad yn aml gan ddefnyddio siopau ailddefnyddio, gan ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a chefnogi datblygu sgiliau. Rydym wedi gweld gostyngiad o 12%[7] (2009-2015) mewn gwastraff bwyd o gartrefi a dyma'r wlad gyntaf yn y DU i godi tâl am fagiau siopa untro.

Rydym eisoes yn gweithio i haneru gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2025 yng Nghymru drwy gydweithio gyda WRAP i hyrwyddo'r ymgyrch Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff sy'n codi ymwybyddiaeth o'r angen i leihau gwastraff bwyd. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu casgliadau gwastraff bwyd wythnosol i 99% o gartrefi[8].

Yn ein cymunedau, mae caffis atgyweirio yn ymddangos, ac mae'r cysyniad o economi rhannu yn dechrau lledaenu ar draws y wlad – rydym yn cefnogi hyn a mentrau eraill sydd nid yn unig yn atal gwastraff ond yn lleihau faint o eitemau a allai gael eu taflu i'r sbwriel neu eu tipio'n anghyfreithlon.

Mae busnesau hefyd yn chwarae rhan fwy gweithredol wrth leihau ac atal gwastraff ac rydym yn eu cefnogi drwy raglenni cymorth busnes, megis Busnes Cymru, Bwyd a Diod Cymru a Cyswllt Ffermio.

Er gwaetha'r cynnydd rydym wedi'i wneud, gwnaeth dadansoddiad 2015-16 nodi bod potensial i ailddefnyddio 180,000 tunnell o wastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol[9]. O'r gwastraff hwn dim ond 10,000 tunnell a gafodd ei baratoi i'w ailddefnyddio mewn gwirionedd – felly mae cryn le i wella, ond mae'r cyfleoedd ar gael.

### *Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:*

Mae angen gwneud mwy i leihau gwastraff yn y lle cyntaf, yn ein cartrefi a'n busnesau. Rydym yn dymuno cefnogi'r nifer o fentrau atal gwastraff ledled Cymru i ddod ynghyd, rhannu arferion a chlywed oddi wrthynt pa gymorth y maen nhw ei angen. Rydym yn gwybod mai gwerth y rhain yw nid dim ond atal y gwastraff ond mae manteision economaidd a chymdeithasol posibl hefyd, wrth i bobl gael eu cefnogi i ddysgu sgiliau a chymryd camau i ymuno â byd gwaith. Hoffem weld enghreifftiau o arferion da sy'n bodoli ledled Cymru yn dod yn arferol o fewn eu

[7] WRAP (2015) Household Food Waste in the UK;
http://www.wrap.org.uk/sites/files/wrap/Household_food_waste_in_the_UK_2015_Report.pdf

[8] Llywodraeth Cymru (2015), Tuag at Ddyfodol Diwastraff (*** dim fersiwn cymaeg)
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/towards-zero-waste-progress-report-july-2015.pdf

[9] WRAP Cymru, 2018, Caerdydd, Paratoi ar gyfer ailddefnyddio: mapio'r llwybr tuag at newid sylfaenol yng Nghymru, paratowyd gan Resource Futures, http://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/CCP104-014%20-%20PfR%20Roadmap%20-%20final%20-%20Welsh%20-%20July%202018.pdf

sectorau. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i ni sicrhau ein bod yn dysgu o brosiectau arloesol.

### *Beth sydd angen inni ei wneud?*

**Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd:** Byddwn ar flaen y gad o ran gwaredu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi drwy edrych ar y gadwyn gyflenwi gyfan a gweithio gyda busnesau o'r fferm i'r fforc i leihau gwastraff a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl.

**Blaenoriaethu prynu pren, a chynnwys sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu:** Byddwn yn blaenoriaethu defnyddio pren a chynnwys a gafodd ei ailgylchu yn ogystal â blaenoriaethu cynnwys a ailddefnyddiwyd ac a ailweithgynhyrchwyd o ran y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu caffael.

- Byddwn yn sicrhau bod gan bob busnes yng Nghymru fynediad at gyngor ar leihau eu gwastraff eu hunain ac ecogynllunio'r cynnyrch y maen nhw'n ei wneud a'i werthu fel bod y cynnyrch yn defnyddio llai o adnoddau ac yn creu llai o wastraff ar ddiwedd oes.
- Byddwn yn datblygu targed paratoi isafswm i'w ailddefnyddio i Awdurdodau Lleol ar gyfer y cyfnod canolraddol gan arwain at ddyfodol diwastraff erbyn 2050.
- Byddwn yn mynd ati i weithio gyda'n cymunedau a'n busnesau i hyrwyddo atal ac ailddefnyddio ac yn cefnogi'r sectorau ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu i dyfu.
- Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen eco-ysgolion ac yn gweithio i ennyn diddordeb gwirioneddol pobl ifanc yn y camau gweithredu y mae angen inni eu cymryd ac ymestyn y ffocws i fwy na dysgu am ailgylchu.
- Byddwn yn datblygu targed a chamau gweithredu i haneru gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2025 a thargedau pellach i fynd y tu hwnt i hynny ar ôl 2025.
- Byddwn yn canolbwyntio ar atal gwastraff bwyd drwy weithio mewn partneriaeth o'r 'fferm i'r fforc' i atal a lleihau gwastraff a dod o hyd i ffyrdd eraill o'i ddefnyddio.
- Byddwn yn cydweithio â Bwyd a Diod Cymru i roi cymorth ymarferol i fusnesau i leihau gwastraff a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd sy'n gallu deillio o hyn.
- Byddwn yn ysgogi newid diwylliant drwy flaenoriaethu defnyddio deunyddiau a ailddefnyddiwyd ac a ailweithgynhyrchwyd o ran y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu caffael.
- Byddwn yn annog y sector cyhoeddus i roi offer gwerthfawr a defnyddiol sydd dros ben, gan gynnwys i wledydd eraill sy'n methu â chael mynediad at offer o'r fath ac a allai elwa ar eu defnyddio.
- Byddwn yn sicrhau bod prosiectau adeiladu'r sector cyhoeddus yn cynhyrchu llai o wastraff yn ystod y gwaith adeiladu, gan gynnwys unrhyw newid defnydd ac ar ddiwedd y prosiect.

**Cwestiwn 4:** Pa gamau gweithredu allwn ni eu cymryd i hyrwyddo ymhellach y gwaith ar atal ac ailddefnyddio sy'n digwydd yn ein cymunedau?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno y dylem ddatblygu ac ymestyn y gwaith rydym yn ei wneud mewn ysgolion ynghylch atal ac ailddefnyddio gwastraff?

**Cwestiwn 6:** Yn eich barn chi beth yw'r camau allweddol y mae angen inni eu cymryd i leihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi ymhellach?

**Cwestiwn 7:** Ai'r camau gweithredu a awgrymir yn y thema hon yw'r rhai iawn? Os nad ydynt yn iawn, pam? Pa gamau gweithredu eraill y gallem eu hystyried i gyflawni nodau'r strategaeth?

## Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau

Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio adnoddau ar gyfradd lawer yn uwch na'r hyn sy'n gynaliadwy gan achosi effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol. Byddwn yn edrych ar yr angen hirdymor ar gyfer deunyddiau allweddol yng Nghymru, gan hefyd leihau ôl troed carbon (datgarboneiddio) y cadwyni cyflenwi, a llywio’r defnydd o ddeunyddiau arloesol sy'n gallu cael eu defnyddio cyhyd ag y bo'n bosibl. Bydd hyn yn denu cyfleoedd i fusnesau Cymru gystadlu mewn cadwyni cyflenwi llai a mwy cydnerth.

### *Y sefyllfa bresennol:*

Mae cynhyrchu cynnyrch bob dydd gan gynnwys ceir, dillad a bwyd yn gyfrifol am 45% o allyriadau carbon y byd[10]. Rydym yn defnyddio llawer mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear.

Mae effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol llawn y deunyddiau sy'n bresennol mewn cynnyrch rydym yn eu defnyddio'n cael eu cuddio wrthym i raddau helaeth, yn aml oherwydd bod y deunyddiau crai ynddynt yn cael eu cloddio a'u prosesu mewn rhannau eraill o'r byd. Mae’r ynni a ddefnyddir a’r allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig i’w hechdynnu, eu prosesu a'u cludo hwy hefyd â'r un broblem.

Mae tystiolaeth yn dangos bod sbwriel, gan gynnwys microblastigau, yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd morol. Rydym wedi bod yn cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan lygredd plastig a sbwriel morol gan gynnwys cyflwyno gwaharddiadau ar eitemau plastig untro.

### *Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:*

Er mwyn cyflawni ein nodau, bydd angen i'r swm a'r math o ddeunyddiau rydym yn eu defnyddio newid. Mae angen inni leihau swm cyffredinol y deunyddiau rydym yn eu defnyddio ac ystyried yn ofalus y deunyddiau y mae ein nwyddau wedi'u gwneud ohonynt. Gallai hynny olygu dod o hyd i fwy o ddeunyddiau cynaliadwy, lleol a charbon isel megis pren. Bydd angen i ni symud oddi wrth y deunyddiau hynny sydd â'r ôl troed carbon uchaf a sicrhau bod atal ac ailddefnyddio yn cael eu hystyried yn gyntaf.

Rydym yn dymuno cynyddu'r defnydd o gynnwys sydd wedi’i ailgylchu a'i ailweithgynhyrchu, gan adeiladu ar ein Cronfa Economi Gylchol o £6.5 miliwn sy'n rhoi cymorth i fusnesau i gynyddu faint o gynnwys sydd wedi’i ailgylchu sydd yn eu cynnyrch a gweithio gyda chyrff cyhoeddus i arwain y ffordd.

Gan ganolbwyntio'n arbennig ar blastig, rydym am weld Cymru'n rhydd rhag plastigau untro a phroblematig diangen, gan gydnabod bod ambell ddefnydd o blastig, megis mewn lleoliadau meddygol, yn dal i fod yn bwysig. Rydym am atal plastig rhag dod yn sbwriel neu rhag cyrraedd

---

[10] Ellen MacArthur Foundation (2019), Completing the picture: How the circular economy tackles climate change; https://www.ellenmacarthurfoundation.org/assets/downloads/Completing_The_Picture_How_The_Circular_Economy-_Tackles_Climate_Change_V3_26_September.pdf

safleoedd tirlenwi drwy gyfyngu ar ei ddefnydd diangen a chefnogi arloesedd mewn meysydd megis bioblastigau.

### *Beth sydd angen inni ei wneud?*

**Blaenoriaethu prynu pren, a chynnwys sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu:** Byddwn yn blaenoriaethu defnyddio pren a chynnwys sydd wedi'i ailgylchu yn ogystal â blaenoriaethu cynnwys a ailddefnyddiwyd ac a ailweithgynhyrchwyd o ran y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu caffael.

- Byddwn yn comisiynu dadansoddiad i ddeall yn well y farchnad, y cadwyni cyflenwi a'r angen hirdymor ar gyfer deunyddiau allweddol yng Nghymru a sut y gallwn ddatgarboneiddio'r rhain.
- Byddwn yn blaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy a charbon isel ym maes adeiladu yng Nghymru, a rhoi hynny ar waith yn y Rhaglen Tai Arloesol ac ailwampio'r stoc dai cymdeithasol yng Nghymru.
- Byddwn yn gofyn i holl gyrff y sector cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddilyn yr hierarchiaeth hon ac adrodd ar lefel y cynnwys a ailgylchwyd yn yr adeiladau y maen nhw'n eu caffael.
- Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau i ddod o hyd i ddefnyddiau a marchnadoedd ar gyfer deunyddiau sy'n cael eu hystyried yn wastraff ar hyn o bryd a darparu buddsoddiad i wneud hynny'n bosibl drwy ein Cronfa Economi Gylchol.
- Byddwn yn creu llwybr a fydd yn golygu mai Cymru fydd y wlad gyntaf i beidio ag anfon unrhyw blastig i safleoedd tirlenwi gyda strategaeth uchelgeisiol i atal plastig rhag cyrraedd ein hamgylchedd naturiol, gan gynnwys rhai diwygiadau pellgyrhaeddol sy'n amrywio o gymorth ar gyfer arloesedd hyd at y defnydd o ddeddfwriaeth.
- Byddwn yn lleihau'n sylweddol ar y defnydd diangen o eitemau plastig untro diangen yn ystod y broses o gael gwared ar y rhain yn llwyr.
- Byddwn yn defnyddio mwy o fioblastig o ffynonellau adnewyddadwy pan fo'r defnydd o blastig yn dal i fod yn angenrheidiol.
- Byddwn yn cynyddu'r amrywiaeth o ddeunyddiau plastig a gaiff eu casglu i'w hailgylchu a byddwn yn datblygu mwy o seilwaith ailgylchu yng Nghymru i'w hailbrosesu, gan gynnwys datblygu marchnadoedd ar gyfer plastig a ailgylchwyd ym maes gweithgynhyrchu yng Nghymru.
- Byddwn yn allforio llai o'n gwastraff plastig ac yn dileu sbwriel plastig o'n hamgylchedd naturiol.
- Byddwn hefyd yn gweithredu i gefnogi arloesedd o ran datblygu deunyddiau gwell ac arloesol gan weithio i ddefnyddio dewisiadau amgen carbon is ar gyfer y deunyddiau rydym yn eu defnyddio.

**Cwestiwn 8:** Ai'r deunyddiau rydym wedi'u rhestru yw'r rhai y dylem ganolbwyntio arnynt?

**Cwestiwn 9:** A yw'r newidiadau o ran dylunio cynnyrch gan ddefnyddio'r deunyddiau a restrwyd yn faes y dylid canolbwyntio arno?

**Cwestiwn 10:** Ai'r camau gweithredu a awgrymir yn y thema hon yw'r rhai iawn? Os nad ydynt yn iawn, pam? Pa gamau gweithredu eraill y gallem eu hystyried i gyflawni nodau'r strategaeth? A oes unrhyw ddeunyddiau eraill y gallem ganolbwyntio arnynt a pham?

## Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth

Gan fanteisio i'r eithaf ar ysgogiadau'r Llywodraeth megis cyllid, deddfwriaeth, trethi a chaffael, byddwn yn cysoni ein camau gweithredu er mwyn sicrhau gymaint o fanteision â phosibl. Drwy wneud hynny, byddwn yn dangos ein hymroddiad ein hunain ac yn cefnogi camau gweithredu'r sector cyhoeddus yn ehangach i gynorthwyo’r symud tuag at economi fwy cylchol. Mae hyn yn cydnabod bod angen i bob rhan o'r Llywodraeth weithredu er mwyn parhau â'n cynnydd tuag at ddod yn genedl ddiwastraff, gan leihau gwastraff a defnyddio adnoddau gymaint ag y bo'n bosibl.

### *Y sefyllfa bresennol:*

Ers cyhoeddi'r strategaeth ddiwethaf, mae Cymru wedi derbyn y cyfrifoldeb datganoledig am fwy o feysydd ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn gallu defnyddio cyfres ehangach o ysgogiadau er mwyn sbarduno newid. Fodd bynnag, gan fod llif deunyddiau yn rhan o'r economi fyd-eang ehangach, mae cyfyngiadau o ran yr hyn y gallwn ei wneud er mwyn sbarduno newid. Yn sgil hynny, rydym wedi bod wrthi'n cydweithio â llywodraethau eraill, yn enwedig y rhai yn y DU, i sbarduno'r newid hwnnw ar y cyd.

Bu rhai llwyddiannau trawiadol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio ein pwerau cyfreithiol i gyflwyno tâl am fagiau siopa a gwahardd microbelenni. Rydym yn parhau i fod yr unig wlad yn y DU i osod targedau ailgylchu isafswm statudol ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n gam a fu'n allweddol er mwyn cefnogi ein cynnydd hyd yn hyn. Rydym hefyd wedi derbyn cyfrifoldeb cyllidol ar gyfer mesurau megis y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac rydym wedi defnyddio cyllid y llywodraeth i gefnogi arloesedd mewn economïau cylchol rhanbarthol a lleol drwy Gronfa’r Economi Sylfaenol a menter Swyddi Gwell yn Nes at Adref.

### *Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:*

Rydym am ddefnyddio ysgogiadau'r llywodraeth i gefnogi a llywio Cymru’n glir ar ein llwybr tuag at economi fwy cylchol. Drwy wneud hyn, byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu ac yn cefnogi'r ymateb ehangach i'r Argyfwng Hinsawdd. Rydym am sicrhau bod ein dull gweithredu o ran yr adnoddau rydym yn eu defnyddio fel Llywodraeth, a lle y dônt, yn cefnogi ein symudiad tuag at economi gylchol. Drwy wneud hynny, rydym yn dymuno bod yr arian rydym yn ei wario yn ysgogi arferion da, gan gynnwys ystyried costau oes gyfan, y deunyddiau a ddefnyddiwyd, eu heffaith carbon a'r cadwyni cyflenwi rhanbarthol a lleol a ddefnyddir.

Byddwn yn gweithio hefyd i wneud y defnydd gorau o bwerau cyllidol sy'n adeiladu ar gynlluniau megis ein Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, i gyflenwi prosiectau arloesol fesul cam sy'n atal gwastraff ac yn cydnabod deunyddiau sydd dros ben fel adnodd. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau ein bod yn cymryd cyfrifoldeb llwyr am ein gwastraff.

### *Beth sydd angen inni ei wneud?*

| |
|---|
| **Cael gwared ar blastig untro yn raddol:** Byddwn yn gwneud Cymru'r wlad gyntaf i beidio ag anfon plastig i safleoedd tirlenwi. Byddwn yn bwrw ati gyda diwygiadau pellgyrhaeddol gan gynnwys cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, ac yn gosod gwaharddiadau neu |

gyfyngiadau i gael gwared yn raddol ar y defnydd o blastig untro, diangen sy'n aml yn cael ei daflu'n sbwriel.

**Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff:** Byddwn yn ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff yng Nghymru, gan sicrhau nad ydym yn allforio gwastraff i fod yn broblem yn rhywle arall. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhannau eraill o'r byd i'w helpu i fynd i'r afael â'u problemau gwastraff.

- Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn caffael cynnyrch sy'n effeithio’n negyddol ar hawliau dynol na'r amgylchedd mewn gwledydd eraill. Byddwn hefyd yn annog busnesau Cymru i fabwysiadu'r un egwyddor.
- Byddwn yn cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio ac yn datblygu dull gweithredu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer cynnyrch ychwanegol megis teiars, tecstilau, gwastraff swmpus (er enghraifft celfi, matresi a charpedi) a chynnyrch a ddefnyddir ym maes adeiladu.
- Byddwn yn cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.
- Byddwn yn cyflwyno system olrhain gwastraff electronig gorfodol i ddarparu gwybodaeth flynyddol ar wastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchir yng Nghymru.
- Byddwn yn deddfu i sicrhau bod y deunyddiau allweddol y gellir eu hailgylchu wedi'u gwahanu yn cael eu gwahardd rhag adfer ynni neu’n cael eu hanfon at safleoedd tirlenwi.
- Byddwn yn llunio Cynllun Atal Sbwriel i Gymru, a byddwn yn parhau i gyflawni ein Strategaeth Tipio Anghyfreithlon "Cymru Ddi-dipio".
- Byddwn yn cyflwyno gwaharddiadau ac yn cyfyngu ar werthu eitemau plastig untro sy'n aml yn cael eu taflu’n sbwriel.
- Byddwn yn adolygu ein tâl am fagiau siopa untro a oedd yn torri tir newydd ac yn ystyried a oes angen i ni gymryd camau pellach yn ymwneud â’r eitemau hyn.
- Byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth ar gynigion ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau a chynhwysyddion bwyd plastig untro.
- Byddwn yn ystyried gwahardd cwpanau untro a gaiff eu taflu o stadia yng Nghymru.
- Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth y DU i weld a fyddai treth llosgi gwastraff yn ddymunol fel ffordd arall o gynyddu ailgylchu.

**Cwestiwn 11:** A yw'n ffocws ar wella caffael adnoddau mewn ffordd effeithlon o fewn y Gwasanaeth Cyhoeddus yn faes blaenoriaeth?

**Cwestiwn 12:** A yw'n ffocws ar y deunyddiau a ddefnyddir a defnyddio adnoddau’n effeithlon ym maes adeiladu yn brif ystyriaeth i'w gweithredu yn y dyfodol?

**Cwestiwn 13:** Ai'r camau gweithredu a awgrymir yn y thema hon yw'r rhai iawn? Os nad ydynt yn iawn, pam? Pa gamau gweithredu eraill y gallem eu hystyried i gyflawni nodau'r strategaeth?

## Galluogi cymunedau a busnesau

Rydym yn cydnabod bod pawb yn chwarae rôl bwysig, ac ni all y Llywodraeth weithredu ar ei phen ei hun. Dyma pam rydym am ddefnyddio egni'r busnesau sydd eisoes yn gwneud camau breision tuag at leihau gwastraff, a'r nifer o fentrau cymunedol ledled Cymru - o gymunedau diblastig i sefydliadau ailddosbarthu bwyd sydd dros ben. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth enfawr.

### *Y sefyllfa bresennol:*

Mae ein cymunedau a'n busnesau yng Nghymru eisoes yn gwneud gwahaniaeth – ac maen nhw ar flaen y gad o ran effeithio ar newid amgylcheddol a mentrau cynaliadwy lleol. Mae mentrau megis rhai diblastig a chymunedau diwastraff yn ysbrydoli pawb - o bobl ifanc i fusnesau lleol i weithredu i leihau gwastraff. Mae gan Gymru gefndir balch o fentrau wedi'u harwain gan y gymuned yn y maes hwn ac rydym wedi cefnogi mentrau megis FareShare Cymru, sydd wedi darparu bron i wyth miliwn o brydau bwyd i bobl sy'n agored i niwed drwy ailddosbarthu bwyd sydd dros ben ers 2011. Mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ariannu 44 prosiect amgylcheddol, a oedd yn aml yn canolbwyntio ar fentrau ailddefnyddio ac ailgylchu. Rydym hefyd wedi gweld bod bron 1,700 o fannau ail-lenwi poteli dŵr wedi'u cyflwyno dros ardal eang ledled Cymru hyd yn hyn fel rhan o'r fenter Cenedl Ail-lenwi.

### *Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:*

Rydym am adeiladu ar y momentwm sylweddol ledled Cymru a'i ddefnyddio'n sail i annog a hwyluso mwy o gymunedau a busnesau i gymryd camau gweithredu cadarnhaol – yn enwedig o ran defnyddio adnoddau'n effeithlon, atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu. Yn benodol, rydym am ddefnyddio angerdd a brwdfrydedd pobl ifanc drwy ein rhaglen Eco-ysgolion a mentrau eraill i sbarduno newid.

Drwy wneud hynny byddwn yn anelu at ddod â chymunedau at ei gilydd i ddatblygu mentrau sy'n berthnasol i'w hardaloedd ac anghenion penodol, yn enwedig y rhai sy'n lleihau gwastraff ac yn hyrwyddo ailddefnyddio ac atgyweirio.

Rydym yn dymuno i'n busnesau a'n mentrau fod ar flaen y gad o ran newid a'u cefnogi i wneud ac arbed arian, gan ddod yn fwy cydnerth drwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi rhanbarthol a lleol. Bydd hyn hefyd yn datgloi potensial economaidd drwy'r gallu i gystadlu mewn marchnadoedd newydd a datblygol gan hefyd sicrhau canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol.

Rydym wedi cyflawni llawer yn ystod y ddau ddegawd diwethaf ers datganoli ac rydym yn dymuno rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu a'n hadnoddau i helpu gwledydd eraill i fabwysiadu arferion gorau.

### *Beth sydd angen inni ei wneud?*

| |
|---|
| **Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd:** Byddwn yn cefnogi dinasyddion a chymunedau i wneud y pethau bychain sydd at ei gilydd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Byddwn yn ennyn diddordeb pobl ifanc fel y gallant fynd ati i ddysgu a bod yn rhan o gamau gweithredu er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithlon drwy'r sector addysg a thu hwnt. |

**Creu'r amodau i fusnesau achub ar gyfleoedd:** Byddwn yn cefnogi pob busnes yng Nghymru i leihau ei ôl troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i'n busnesau arbed a gwneud arian yn ogystal â bod yn fwy cydnerth a medru cystadlu mewn marchnadoedd newydd a datblygol gan sicrhau canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol hefyd.

- Byddwn yn cefnogi ein cymunedau yn eu hymdrechion i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen eco-ysgolion fel y gall pobl ifanc fynd ati i ddysgu a chymryd rhan mewn camau gweithredu i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.
- Byddwn yn gweithio i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr a fydd yn ceisio gwerthfawrogi cynnyrch gwyrdd a chynaliadwy.
- Byddwn yn mynd ati i ennyn diddordeb cymunedau i adolygu pa gymorth sydd ei angen, a'u helpu i ddod ynghyd i wneud mwy o wahaniaeth ar y cyd.
- Byddwn yn edrych ar y model o drefi diwastraff ac yn gweithio tuag at weithredu mecanweithiau effeithiol i gefnogi trefi a dinasoedd i weithredu a chydnabod y camau y maen nhw'n eu cymryd.
- Byddwn yn gweithio i gefnogi busnesau i achub ar y cyfleoedd a ddaw o economi fwy cylchol drwy gynnig cyngor a chymorth clir. Byddwn hefyd yn ehangu ein cymorth arloesedd ac yn cynyddu'r nifer o fusnesau sydd wedi tanysgrifio i lw Twf Gwyrdd Busnes Cymru,
- Byddwn yn cefnogi gweithgynhyrchwyr, yn enwedig y diwydiant bwyd a diod i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y diwygiadau pellgyrhaeddol sydd ar y gweill i ddeunydd pacio.

**Cwestiwn 14:** A yw'n cymorth busnes parhaus i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn gam gweithredu â blaenoriaeth?

**Cwestiwn 15:** Beth yw eich barn am ddechrau ardal Tref Ddiwastraff?

**Cwestiwn 16:** Ai'r camau gweithredu a awgrymir yn y thema hon yw'r rhai iawn? Os nad ydynt yn iawn, pam? Pa gamau gweithredu eraill y gallem eu hystyried i gyflawni nodau'r strategaeth?

## Buddsoddi mewn seilwaith

Er mwyn sicrhau bod gennym y seilwaith ffisegol ar waith i gefnogi pobl i weithredu, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith fel ein bod yn barod ar gyfer y cyfnod pontio i genedl carbon isel, ddiwastraff sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae hyn yn golygu parhau i ariannu'r seilwaith angenrheidiol i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau i gyflymu cynnydd Cymru.

### *Y sefyllfa bresennol:*

Mae Cymru'n gymdeithas sy'n ailgylchu llawer, gyda seilwaith casglu o ansawdd uchel, seilwaith ailbrosesu wedi'i ddatblygu'n dda ac enw da ledled y byd o ran cyflawni.

Rydym eisoes wedi buddsoddi £1 biliwn ar ailgylchu gwastraff cartrefi gan gynnwys seilwaith ar draws y wlad i drawsnewid sut rydym yn ymdrin â'n gwastraff. Bellach mae gennym y seilwaith ar waith fel bod 61% o wastraff cartrefi yn cael ei ailgylchu ac mae 99% o'n cartrefi yn cael eu gwastraff bwyd wedi'i gasglu a'i drin ar wahân.

Mae mwy a mwy yn cael ei fuddsoddi mewn seilwaith ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu. Ledled Cymru rydym wedi gweld seilwaith yn cael ei ddatblygu i ddargyfeirio bwyd sydd dros ben o safleoedd tirlenwi i'r bobl hynny sydd ei angen. Rydym hefyd wedi gweld caffis ailddefnyddio ac atgyweirio, storfeydd sgrap a mentrau compostio cymunedol yn datblygu ar draws y wlad.

### *Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:*

Er mwyn mynd i'r afael â'r deunyddiau ychwanegol a gesglir yn sgil mwy o ailgylchu, byddwn angen mynediad at seilwaith rheoli gwastraff ychwanegol i sicrhau'r enillion gorau posibl o'r deunyddiau a gasglwyd. Mae'n rhaid hefyd i'r buddsoddiad mewn seilwaith helpu i fynd i'r afael â'r pwysau o ran fforddiadwyedd ac i ymdrin â'r ffrydiau deunyddiau mwy anodd.

Byddwn hefyd angen seilwaith sy'n fwy nag ailgylchu, drwy gefnogi ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu. Bydd hefyd angen inni sicrhau bod y seilwaith sydd gennym wedi'i ddatgarboneiddio ac y bydd buddsoddiad yn y dyfodol yn cefnogi'r seilwaith sydd ei angen arnom mewn economi fwy cylchol.

### *Beth sydd angen inni ei wneud?*

**Buddsoddi mewn technoleg lân er mwyn casglu deunyddiau:** Byddwn yn moderneiddio'r ffordd rydym yn casglu'r deunydd o'n cartrefi a'n busnesau i leihau allyriadau carbon deuocsid o drafnidiaeth a gwella ansawdd aer, drwy gyflwyno cerbydau heb allyriadau a buddsoddi yn y seilwaith i'w gwefru a rhoi pŵer iddynt mewn ffordd gynaliadwy.

- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddatblygu hybiau rhanbarthol ar gyfer technolegau ailgylchu, ailbrosesu ac ailweithgynhyrchu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd a ddaw o economi fwy cylchol.
- Byddwn yn buddsoddi yn y seilwaith trin a phrosesu i fynd i'r afael â deunyddiau â blaenoriaeth gan gynnwys cynnyrch hylendid amsugnol, pren, plastigau ac offer gwastraff trydanol ac electronig.
- Byddwn yn cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu i leihau gwastraff a sicrhau bod yr adnoddau hynny yn cael eu

defnyddio mor effeithlon â phosibl a chefnogi busnesau i arloesi gyda deunyddiau gwastraff drwy fentrau megis y Gronfa Economi Gylchol.

- Byddwn yn hyrwyddo seilwaith cymunedol sy'n helpu dinasyddion i leihau gwastraff gan gynnwys siopau diblastig a diwastraff, siopau ailddosbarthu bwyd sydd dros ben, ail-lenwi, a llogi cymunedol, llyfrgelloedd benthyg deunyddiau a mentrau cysylltiedig eraill.
- Byddwn yn gweithio i gysoni ein mentrau datblygu economaidd rhanbarthol o Fargeinion Dinesig, yr Economi Sylfaenol a Thasglu'r Cymoedd i annog datblygu seilwaith economi gylchol sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

**Cwestiwn 17:** A yw'r camau gweithredu ar gyfer y mentrau a grybwyllir yma yn rhai y dylem anelu at ddarparu seilwaith ategol ar eu cyfer?

**Cwestiwn 18:** A yw'r sylw ar brif weithgareddau rhanbarthol Llywodraeth Cymru e.e. Tasglu'r Cymoedd, Bargenion Dinesig, yn ffordd addas o sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon?

**Cwestiwn 19:** Ai'r camau gweithredu a awgrymir yn y thema hon yw'r rhai iawn? Os nad ydynt yn iawn, pam? Pa gamau gweithredu eraill y gallem eu hystyried i gyflawni nodau'r strategaeth?

## Dull gweithredu'r ymgynghoriad a sut i ymateb

Rydym am glywed eich barn. Rydym yn fwriadol wedi gwneud y ddogfen ymgynghori hon yn fyr ac yn hygyrch. Bydd eich barn yn llywio sut y bydd y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y degawd nesaf yn parhau â'r llwybr hwnnw tuag at ddyfodol diwastraff.

Ochr yn ochr â'r cwestiynau penodol ymhob adran, mae gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed eich barn am yr effaith y gallai'r strategaeth ei chael ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 20:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y ddogfen hon yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 21:** Eglurwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellid ffurfio'r strategaeth arfaethedig neu ei newid fel y caiff ddylanwad positif neu fwy o ddylanwad positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn yr un ffordd â'r Saesneg, ac na fydd unrhyw ddylanwad anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Rydym hefyd am glywed eich barn gyffredinol ar y strategaeth:

**Cwestiwn 22:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych yn dymuno i'ch ymatebion barhau'n anhysbys, rhowch wybod inni mewn unrhyw ymateb drwy'r post neu'r e-bost, drwy roi tic yn y blwch priodol ar y ffurflen ar-lein.

Os ydych yn ymateb drwy'r post neu'r e-bost, dylech gynnwys eich enw, eich sefydliad (os yw'n berthnasol), eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad ynghyd â'ch ymateb.

Yn ogystal â bod ar gael yn Saesneg, rydym hefyd wedi paratoi fformat sy'n hawdd ei ddarllen a chyflwyniad safonol. Mae'r rhain wedi'u dylunio i'w defnyddio gan gymunedau, ysgolion, busnesau ac eraill i'ch helpu i ymateb i'r ymgynghoriad.

Byddwn yn cynnal llawer o ddigwyddiadau ledled Cymru sy'n canolbwyntio ar grwpiau rhanddeiliaid gwahanol. Bydd cyfleoedd hefyd i gymryd rhan ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn awyddus i glywed barn cynifer o bobl a sefydliadau â phosibl. Bydd eich ymatebion yn gwneud gwahaniaeth.

Pan fydd yr ymgynghoriad wedi cau byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a'n nod yw cyhoeddi strategaeth derfynol yn 2020.